



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government


Llywodraeth Cymru 2019

# Ffyniant i Bawb: Cymru Carbon Isel


Lleihau allyriadau a throsglwyddo i economi carbon isel mewn ffordd sy'n sicrhau manteision ehangach i Gymru a chreu cymdeithas sy'n decach, yn iachach ac yn fwy cyfartal.

- › O dan Adran 39 y Ddeddf, rhaid i Weinidogion Cymru baratoi a chyhoeddi adroddiad ar gyfer pob cyfnod cyllidebol gan restru'r polisiau a'r cynigion ar gyfer gwireddu cyllideb garbon y cyfnod hwnnw.
- › Pennwyd y gyllideb garbon gyntaf ar ostyngiad cyfartalog o 23% a tharged gostyngiad allyriadau interim ar gyfer 2020 o 27% (yn erbyn llinell sylfaen 1990).

## Ein Hallyriadau a'r Llwybr tuag at ostyngiad o 80% o leiaf yn 2050



Cyfanswm Cyfran Allyriadau Cymru ar draws y sectorau



Cyfanswm allyriadau Cymru - data hanesyddol ac amcanestyniadau y dyfodol

## 100 o Bolisiau a Chynigion

- › Mae'r Cynllun yn cyfuno 76 o ddarnau polisi cyfredol ar draws Llywodraeth Cymru, Llywodraeth y DU a'r UE ble y caiff datgarboneiddio ei gynnwys naill ai fel canlyniad uniongyrchol neu fantais ehangach.
- › **24 cynnig** i archwilio a datblygu polisiau gweithredu yn y dyfodol sy'n datblygu syniadau ar gyfer camau gweithredu o'n hymgyngoriad yn 2018.
- › Yn cwmpasu portffolio pob Gweinidog.

- › Dilyn ffyrdd o weithio y Ddeddf Llesiant, sef:



Hirdymor



Integreiddio



Cynnwys



Cydweithio



Atal

# Trosolwg o'r cynllun



## Allyriadau'r sector nwyon Ff yn lleihau o ganlyniad i'r canlynol:

- › Lleihau'r galw.



## Allyriadau'r sector pŵer yn lleihau o ganlyniad i'r canlynol:

- › Cynhyrchu llai o bŵer cyffredinol o danwydd ffosil;
- › Cynyddu'r defnydd o ynni adnewyddadwy i gyflawni'r targed ar gyfer Cymru i gynhyrchu 70% o'i defnydd trydan o ynni adnewyddadwy erbyn 2030;
- › Cynyddu'r gefnogaeth i arloesedd.



## Allyriadau'r sector amaethyddiaeth yn lleihau o ganlyniad i'r canlynol:

- › Gwella effeithlonrwydd cynhyrchu da byw;
- › Gwella rheolaeth cynydu a maetholion;
- › Gwella effeithlonrwydd tanwydd ac ynni ffermydd.



## Allyriadau'r sector diwydiant yn lleihau o ganlyniad i'r canlynol:

- › Gwella mesurau effeithlonrwydd ynni deunyddiau, ynni a phrosesau, arloesi a gwres gwastraff;
- › Cynyddu mesurau carbon isel gwres a phrosesau diwydiannol.



## Allyriadau'r sector trafndiaeth yn lleihau o ganlyniad i'r canlynol:

- › Mesurau newid ymddygiad (newid moddol i ddulliau teithio mwy cynaliadwy);
- › Cynnydd yn nifer y cerbydau trydan a ddefnyddir;
- › Lleihau allyriadau o drafnidiaeth ar y ffyrdd a'r rheilffyrdd yn sgil mesurau effeithlonrwydd cerbydau a thanwydd.



## Allyriadau'r sector adeiladu yn lleihau o ganlyniad i'r canlynol:

- › Mesurau arbed ynni;
- › Mesurau gwresogi carbon isel;
- › Mesurau newid ymddygiad yn y modd yr ydym yn defnyddio adeiladau.



## Allyriadau'r sector LULUCF yn lleihau o ganlyniad i'r canlynol:

- › Cynyddu'r gorchudd coed
- › Lleihau'r carbon a gollir o fawndiroedd ac adeiladu storffeydd carbon mewn biomas



## Allyriadau'r sector gwastraff yn lleihau o ganlyniad i'r canlynol:

- › Lleihau allyriadau gwastraff o safleoedd tirlenwi;
- › Cynyddu'r mesurau i leihau allyriadau o drin dŵr.



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

## Arwain, Integreiddio, Cydweithio a Chynnwys

- › Mae'r Cynllun yn nodi'r camau **trawsbynciol** yr ydym yn eu cymryd trwy **integreiddio** datgarboneiddio ar draws polisiau a gweithgareddau'r llywodraeth.
- › Mae'n esbonio sut yr ydym yn meddwl mewn ffordd fwy holistig, yn cydnabod y systemau **ehangach a mwy cydgysylltiedig** a'r **sgiliau a'r arloesedd** a fydd eu hangen i allu newid.
- › Mae'r Cynllun hefyd yn pwysleisio'r angen i gymdeithas ac eraill **gydweithio** a **chyfranogi** er mwyn troi Cymru'n wlad carbon isel.
- › Bydd **pobl Cymru** wrth wraidd y gwaith o gynllunio'r newidiadau a'r mentrau carbon isel y bydd eu hangen yn y dyfodol wrth symud tuag at ddyfodol carbon isel.
- › Dangos sut y gall Cymru gyfrannu at **her fyd-eang** newid hinsawdd ac arwain yn **rhyngwladol** gyda **Gwladwriaethau a Rhanbarthau**, a rhannu a dysgu gydag eraill.

## Arweiniad yn y Sector Cyhoeddus

- › Bydd cyflawni ein targedau datgarboneiddio a'n uchelgais carbon niwtral yn gofyn am arweiniad sylweddol gan y sector cyhoeddus mewn meysydd fel adeiladu, trafndiaeth a chaffaeliad.

